OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 564

# Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022

## RHAN 1

## Rhagarweiniol

**Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2022.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Adeiladu" ("*the Building Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" ("*the Approved Inspectors Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(**2**).

(**1**) O.S. 2010/2214, a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/747 (Cy. 89), 2013/2621 (Cy. 258), 2014/110 (Cy. 10), 2015/1486 (Cy. 165), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2010/2215, a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/3119, 2013/747 (Cy. 89), 2013/1959, 2014/58 (Cy. 5), 2014/110 (Cy. 10), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.